# Pwyllgor y De-Ddwyrain

Bydd Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain yn cyfarfod ar **ddydd Gwener, 21 Mehefin 2002 yn Ngwesty'r Maes Manor, Maesrudded Lane, Coed-duon, 9.30am hyd 12.30pm**. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar Ynni Adnewyddadwy, mater y bu'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ymchwilio iddo. Gellir gweld copïau o'r adroddiad ar wefan y Cynulliad. Mae copïau caled ar gael hefyd, os gofynnir amdanynt.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ym mis Ebrill 2002, ac mae'n ystyried y materion sy'n gysylltiedig â datblygu ynni adnewyddadwy. Daeth tystiolaeth i law oddi wrth amrediad eang o bobl a sefydliadau, ac mae'r adroddiad yn amlinellu'r casgliadau a dynnwyd ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law.

Bydd cyfle yn y cyfarfod i'r cyhoedd holi Aelodau'r Cynulliad a'r cyflwynwyr. Mae croeso i chi ddod draw i wrando ac i gwrdd ag Aelodau'r Cynulliad yn ystod yr egwyl.

Mae croeso i chi hefyd roi gwybod i bobl eraill a allai fod â diddordeb yn y cyfarfod. **Os hoffech fod yn bresennol, ffoniwch Linell Neilltuo Lle y Cynulliad ar 029 2089 8477**.

**Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig, rhowch wybod i aelod o dîm Neilltuo Lle y Cynulliad. Gellir darparu gwybodaeth am y cyfarfod ar ffurfiau eraill yn ôl y galw.**